# Digwyddiadau Rhestredig

## Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA 2024 ac 2028

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd ar 12 Ebrill 2024
Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 10 Mai 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3

2. Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA 2024 ac 2028 ... 4


## Atodiad


A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 7

A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori ... 10

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ... 11

# 1. Trosolwg

### Beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Mae Ofcom wedi cael ceisiadau gan y BBC ac ITV am ganiatâd i ddarlledu Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA 2024 a 2028 yn fyw ac yn egsgliwsif (“ y Twrnamaint”). Cynhelir y Twrnamaint yn yr Almaen rhwng dydd Gwener 14 Mehefin a dydd Sul 14 Gorffennaf 2024. Disgwylir i Dwrnamaint 2028 gael ei gynnal ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ym mis Mehefin a Gorffennaf 2028, gyda’r union ddyddiadau eto i’w cadarnhau.

Mae Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA wedi’i ddynodi’n ddigwyddiad rhestredig Grŵp A at ddibenion Deddf Darlledu 1996. O dan y Ddeddf, rhaid cael caniatâd Ofcom er mwyn dangos y digwyddiadau rhestredig yn fyw ac yn ecsgliwsif.

Mae Ofcom yn bwriadu rhoi’r caniatâd hwn dros dro, yn amodol ar ystyried unrhyw sylwadau sy’n dod i law mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn.

# 2. Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA 2024 ac 2028

## Cefndir

2.1 Mae Ofcom wedi cael ceisiadau gan y BBC ac ITV am ganiatâd i ddarlledu Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA yn 2024 a 2028 yn fyw ac yn egsgliwsif (“ y Twrnamaint”). Cynhelir y Twrnamaint yn yr Almaen rhwng dydd Gwener 14 Mehefin a dydd Sul 14 Gorffennaf 2024. Disgwylir i Dwrnamaint 2028 gael ei gynnal ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ym mis Mehefin a Gorffennaf 2028, gyda’r union ddyddiadau eto i’w cadarnhau.

2.2 Mae Twrnamaint Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Pêl-droed Ewropeaidd UEFA wedi’i ddynodi’n ddigwyddiad rhestredig Grŵp A. O dan Ddeddf Darlledu 1996, rhaid cael caniatâd Ofcom er mwyn dangos y digwyddiadau rhestredig yn fyw ac yn ecsgliwsif.

## Y ddarpariaeth arfaethedig

2.3 Mae'r BBC ac ITV yn bwriadu rhannu darllediadau o'r Twrnameintiau.

2.4 Ar gyfer Twrnamaint 2024, mae’r BBC ac ITV yn bwriadu darlledu 25 gêm yn egsgliwsif, gyda’r ddau ddarlledwr yn dangos y rownd derfynol. Mae’r BBC yn bwriadu darlledu darllediadau byw o’i gemau ar BBC One neu BBC Two yn bennaf, ond gall ddangos gemau ar BBC Four lle mae gwrthdaro o ran amserlennu. Mae’r BBC hefyd wedi cael yr hawl i ddarlledu’r Twrnamaint yn fyw ar y radio.

2.5 Mae ITV yn bwriadu darparu darllediadau byw o’i gemau ar ITV1 yn bennaf, gyda'r rhain hefyd yn cael eu darlledu ar draws rhwydwaith Channel 3, sy’n cynnwys UTV (yng Ngogledd Iwerddon) a STV (yr Alban). Mae hefyd yn bwriadu darlledu nifer fach o gemau ar ITV4 lle mae gwrthdaro o ran amserlennu. Felly, mae ITV yn gwneud cais ar ran y trwyddedeion perthnasol ar gyfer y gwasanaethau hyn.[1]

2.6 Mae’r BBC ac ITV yn rhagweld trefniadau tebyg ar gyfer darlledu Twrnamaint 2028 ac maent wedi gofyn am ganiatâd Ofcom i ddarlledu darllediadau byw ar y sail honno. Fodd bynnag, fe wnaethant egluro na fydd y rhain yn cael eu cadarnhau tan yn nes at yr amser, ac fe wnaethant ymrwymo i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i Ofcom os oedd unrhyw newidiadau sylweddol.

[1] Y trwyddedeion ar gyfer ITV1 yw ITV Broadcasting Limited ac ITV Breakfast Broadcasting Limited. Y trwyddedeion ar gyfer UTV ac STV yw UTV Limited, STV Central Limited ac STV North Limited.  Y trwyddedai perthnasol ar gyfer ITV4 yw ITV2 Limited.

Felly, mae Ofcom yn cynnig rhoi caniatâd i ddarlledu'r Twrnamaint 2028 yn fyw ar unrhyw wasanaeth cymwys gan y BBC neu ITV.

## Caffael hawliau

2.7 O dan Ddeddf Darlledu 1996 ("y Ddeddf"), mae darpariaeth fyw arfaethedig y BBC ac ITV yn gofyn am ganiatâd Ofcom.[2]

2.8 Mae Ofcom yn asesu ceisiadau am ganiatâd i ddarlledu darllediadau byw o ddigwyddiadau rhestredig ar y sail a nodir yn ein Cod ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill ("y Cod"). Wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd, bydd Ofcom eisiau gweld bod darlledwyr wedi cael cyfle gwirioneddol i gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol.[3]

2.9 Wrth ddod i farn ynghylch a yw'n fodlon bod darlledwyr wedi cael cyfle gwirioneddol i gaffael yr hawliau ar delerau teg a rhesymol, bydd Ofcom yn ystyried y meini prawf a nodir yn y Cod ym mharagraffau 1.14 ac 1.15.

2.10 Mae Ofcom wedi adolygu gwybodaeth a ddarparwyd gan y BBC ac ITV am y broses o gaffael hawliau.

2.11 Eglurodd y BBC ac ITV eu bod wedi caffael yr hawliau darlledu yn y DU ar sail cais ar y cyd a wnaed yn dilyn gwahoddiad i dendro am y Twrnamaint a gyhoeddwyd gan UEFA ar 31 Awst 2021. Cafodd amrywiaeth o ddarlledwyr â diddordeb eu hysbysu ynghylch y gwahoddiad i dendro. Gwahoddwyd ceisiadau erbyn 28 Medi 2021. Gwahoddodd UEFA geisiadau am hawliau i un o'r Twrnameintiau neu'r ddau ohonynt, a marchnata nifer o becynnau gwahanol gan gynnwys pecyn o hawliau darlledu byw. Roedd UEFA hefyd wedi gwahodd darlledwyr i gyflwyno cais ar sail "am ddim" neu "dalu".

## Cynnig i roi caniatâd

2.12 Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan y BBC ac ITV, ein barn dros dro yw bod darlledwyr gwasanaethau cymwys a rhai nad ydynt yn gymwys (at ddibenion y Ddeddf) wedi cael cyfle i gaffael yr hawliau i ddarlledu'r Rowndiau Terfynol yn fyw ar delerau teg a rhesymol.

2.13 Rydym hefyd yn nodi y byddai cynlluniau'r BBC ac ITV yn sicrhau bod Twrnameintiau 2024 a 2028 yn cael eu darlledu'n llawn, yn fyw ac am ddim, a bod cynigion darlledu'r BBC ac ITV yn debyg i'r rhai ar gyfer Twrnamaint 2020 y rhoddodd Ofcom ei ganiatâd iddo.

2.14 Felly, mae Ofcom yn bwriadu rhoi caniatâd dros dro i BBC ac ITV ddarlledu Twrnameintiau 2024 a 2028 yn fyw ac yn ecsgliwsif, a hynny'n amodol ar ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i

[2] Er y bydd y BBC ac ITV yn dangos y rownd derfynol, mae angen caniatâd Ofcom o hyd ar gyfer y ddarpariaeth hon gan fod y ddau ddarlledwr yn cynnig ei ddangos ar "wasanaeth cymwys" at ddibenion y Ddeddf, ac felly nid yw'r eithriad yn adran 101(1) o'r Ddeddf yn berthnasol.

[3] Gweler paragraffau 1.13-1.17 y Cod.

law gan bartïon â diddordeb.[4] Ar gyfer Twrnamaint 2028, rydym yn bwriadu rhoi caniatâd i ddarlledu ar unrhyw un o wasanaethau cymwys y BBC ac ITV.[5]

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

2.15 Os ydych yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau am geisiadau'r BBC ac ITV am ganiatâd, dylech anfon y rhain i Ofcom, drwy e-bost ilistedevents@ofcom.org.uk erbyn 5pm ar 10 Mai 2024 fan bellaf. Mae rhagor o fanylion am ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gael yn yr atodiadau.

[4] Nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiad o'r effaith neu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r cynnig hwn, gan ei fod yn dod o fewn y senario a nodir ym mharagraff 3.6(b) ein canllawiau asesu effaith (a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf 2023). Gweler hefyd baragraff 3.19 o'r canllawiau hynny mewn perthynas ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

[5] Gan gynnwys gwasanaethau cymwys a ddarperir gan y trwyddedeion y mae ITV yn gwneud cais am ganiatâd ar eu rhan.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 10 Mai 2024.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn Consultation: UEFA European Football Championship Finals Tournament 2024 and 2028 - Ofcom. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i listedevents@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Digwyddiadau Rhestredig
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A1.8 Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedau Darlledu drwy anfon neges e-bost i listedevents@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A1.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym Mai 2024.

A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosib ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A1.20 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House

2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydyn ni'n ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A2.4 Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosib yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych farn am y modd rydyn ni yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosib y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai’n well gennych i ni beidio â chyhoeddi’ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)